Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Cynllun Iaith Gymraeg yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol – Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i Adroddiad Monitro Blynyddol 2014-15

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

1	Gwybodaeth Sylfaenol	1
2	Datganiad Safonol	1
	2.2 Adroddiadau Monitro Blynyddol	1
3	Sylwadau ar berfformiad	2
4	Crynodeb	5

1 Gwybodaeth Sylfaenol

Gwybodaeth Sylfaenol		Sylw pellach
Dyddiad cymeradwyo Cynllun Iaith yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol	16 Ionawr 2015	
Uwch Swyddog cyfrifol am weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg	Matthew Coats, Prif Weithredwr	
Dyddiad disgwyl derbyn Adroddiad Monitro Blynyddol	18 Medi 2015	Derbyniwyd yr adroddiad ar 18 Medi 2015

2 Datganiad safonol

2.1 Prif nod Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

2.1.1 Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

2.1.2 Dros amser, fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

2.1.3 Caiff Comisiynydd y Gymraeg ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith, honiadau o ymyrraeth â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

2.1.4 Bydd modd i Gomisiynydd y Gymraeg reoleiddio sefydliadau'n gadarn a chyson drwy safonau, a chaiff benderfynu gosod cosb sifil ar sefydliad os na fydd yn cydymffurfio â gofyniad perthnasol.

2.2 Adroddiadau Monitro Blynyddol

2.2.1 Ceir ymrwymiad mewn Cynlluniau Iaith i baratoi a chyflwyno adroddiad monitro yn flynyddol. I bob pwrpas, hunan asesiad yw Adroddiad Monitro Blynyddol. Wrth

ymateb iddynt, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn disgwyl i sefydliadau dystio eu bod yn cydymffurfio â'u cynlluniau iaith.

2.2.2 Yng nghyswllt Cynlluniau Iaith, arfer y Comisiynydd fydd dwyn sylw at risgiau a dylanwadu ar berfformiad gyda golwg ar osgoi methiant.

2.2.3 Cyhoeddir pob ymateb i adroddiad monitro blynyddol gyda golwg ar sicrhau tryloywder a mynediad rhwydd at wybodaeth ar berfformiad.

3 Sylwadau ar berfformiad

3.1 Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith

Sylwadau ar berfformiad		Gofynion gweithredu
Paragraff 3, t. 2	Noda'r adroddiad fod yr Asiantaeth wedi 'cyflwyno ffurflen gais Gymraeg ar-lein' ar gyfer ceisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol. Ni lwyddwyd i ddod o hyd i'r ffurflen ar-lein hon ar wefan yr Asiantaeth.	Nodwch, os gwelwch yn dda, sut y mae cael mynediad at y ffurflen gais ar-lein am gymorth cyfreithiol troseddol.
Paragraff 5, t. 2	Noda'r adroddiad fod 'popeth a gyhoeddir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog'.	Rhestrwch y dogfennau sydd ar gael gan yr Asiantaeth yn Gymraeg, os gwelwch yn dda.

3.2 DP1 Gwasanaethau Rheng Flaen

Sylwadau ar berfformiad		Gofynion gweithredu
Paragraff 8, t. 3	Noda'r adroddiad i'r Asiantaeth dderbyn '594 o alwadau' i'r llinell Gymraeg yn y cyfnod adrodd, a bod hyn '243 yn llai na'r 12 mis diwethaf'. Cynigir esboniadau posibl dros y gostyngiad, sef gostyngiad yn y gwaith sy'n derbyn cymorth cyfreithiol, a datblygiadau digidol.	Nodwch, os gwelwch yn dda: o a welwyd gostyngiad tebyg yn nifer y galwadau ffôn Saesneg a dderbyniwyd; o pa gamau a gymerir i hybu a hwyluso defnydd o'r gwasanaeth ffôn Cymraeg.

3.3 DP2 Darparu Gwasanaethau drwy Drydydd Parti

Sylwadau ar berfformiad		Gofynion gweithredu
Paragraff 11, t. 3	Noda'r adroddiad fod 'gwasanaeth ar-lein digidol newydd yr Asiantaeth, 'Check if you can get legal aid', ar Gov.uk ar gael yn Gymraeg. Wrth gyrchu'r gwasanaeth, sylwyd: o na chynhwysir y gwasanaeth hwn	Nodwch, os gwelwch yn dda: o pa gamau y bwriedir eu cymryd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth ar-lein Cymraeg yn gyflawn; o pa gamau y bwriedir eu

	yn rhestr Gov.uk o wasanaethau Cymraeg; ○ nad oes unrhyw wybodaeth gefndir am y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg; ○ nad oes unrhyw awgrym fod y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg tan ar ôl clicio 'Start now' ar y dudalen gwybodaeth; ○ nad yw rhannau helaeth o'r gwasanaeth ar-lein wedi eu cyfieithu (gweler sgrinluniau a anfonir drwy e-bost).	cymryd er mwyn hybu a hwyluso defnydd o'r gwasanaeth ar-lein Cymraeg, er enghraifft drwy ei gwneud yn fwy amlwg fod y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg.
Paragraff 13, t. 4	Mae'r adroddiad yn nodi y gall cleient a gedwir yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr Cymraeg 'pan fo'r swyddog yn y ddalfa yn cysylltu â'n Canolfan Alw ar gyfer Cyfreithwyr ar Ddyletswydd'.	Nodwch, os gwelwch yn dda, pa gamau a gymerir er mwyn sicrhau bod cleientiaid yn ymwybodol y gallant ofyn am gyfreithiwr Cymraeg. A gaiff y gwasanaeth ei gynnig yn rhagweithiol?

3.4 DP3 Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant Iaith

Sylwadau ar berfformiad		Gofynion gweithredu
Paragraff 15, t. 4	Noda'r adroddiad y bydd yr Asiantaeth yn 'parhau i ystyried ceisiadau gan staff sy'n dymuno cael hyfforddiant gyda thâl os ydyn nhw'n gallu dangos y byddai'n ateb angen busnes'. Mae'r Comisiynydd yn bryderus fod y datganiad hwn yn awgrymu y rhoddir y cyfrifoldeb ar y staff i ofyn am yr hyfforddiant a phrofi'r angen busnes amdano. Mae Cynllun iaith Gymraeg yr Asiantaeth yn cynnwys yr ymrwymiad canlynol (paragraff 43): 'Anogwn ein staff i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg drwy ein gweithdrefnau dysgu a datblygu a, lle mae hyn yn diwallu angen busnes clir, talwn am gost eu hyfforddiant.'	Esboniwch, os gwelwch yn dda, pa anogaeth a chymorth a roddir i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg. Cadarnhewch a oes disgwyl i'r unigolyn wneud cais am yr hyfforddiant a phrofi'r angen busnes.

3.5 Cyffredinol

Sylwadau ar berfformiad		Gofynion gweithredu
	Ni cheir tudalen Gymraeg benodol ar wefan yr Asiantaeth ar Gov.uk. Cred y Comisiynydd mai effaith hyn yw diffyg ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a'r	Ystyriwch yr opsiwn o ddarparu tudalen Gymraeg benodol ar wefan yr Asiantaeth ar Gov.uk, os

	dogfennau Cymraeg a ddarperir gan yr Asiantaeth, a thrafferthion o ran dod o hyd i'r gwasanaethau a'r dogfennau Cymraeg hynny.	gwelwch yn dda, a darparu ymateb.

4 Crynodeb

	Cam gweithredu	Dyddiad targed
1	Nodwch, os gwelwch yn dda, sut y mae cael mynediad at y ffurflen gais ar-lein am gymorth cyfreithiol troseddol.	20 diwrnod gwaith (30 Hydref 2015)
2	Rhestrwch y dogfennau sydd ar gael gan yr Asiantaeth yn Gymraeg, os gwelwch yn dda.	20 diwrnod gwaith (30 Hydref 2015)
3	Nodwch, os gwelwch yn dda: ○ a welwyd gostyngiad tebyg yn nifer y galwadau ffôn Saesneg a dderbyniwyd; ○ pa gamau a gymerir i hybu a hwyluso defnydd o'r gwasanaeth ffôn Cymraeg.	20 diwrnod gwaith (30 Hydref 2015)
4	Nodwch, os gwelwch yn dda: ○ pa gamau y bwriedir eu cymryd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth ar-lein Cymraeg yn gyflawn; ○ pa gamau y bwriedir eu cymryd er mwyn hybu a hwyluso defnydd o'r gwasanaeth ar-lein Cymraeg, er enghraifft drwy ei gwneud yn fwy amlwg fod y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg.	20 diwrnod gwaith (30 Hydref 2015)
5	Nodwch, os gwelwch yn dda, pa gamau a gymerir er mwyn sicrhau bod cleientiaid yn ymwybodol y gallant ofyn am gyfreithiwr Cymraeg. A gaiff y gwasanaeth ei gynnig yn rhagweithiol?	20 diwrnod gwaith (30 Hydref 2015)
6	Esboniwch, os gwelwch yn dda, pa anogaeth a chymorth a roddir i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg. Cadarnhewch a oes disgwyl i'r unigolyn wneud cais am yr hyfforddiant a phrofi'r angen busnes.	20 diwrnod gwaith (30 Hydref 2015)
7	Ystyriwch yr opsiwn o ddarparu tudalen Gymraeg benodol ar wefan yr Asiantaeth ar Gov.uk, os gwelwch yn dda, a darparu ymateb.	20 diwrnod gwaith (30 Hydref 2015)